



1. Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliad 22 - Penderfyniad Cydsynio Asesu Effeithiau Amgylcheddol

- 1.1 Teitl:** Carthu Agregau Morol yn Ardal 526 – Estyniad Cwlfer
- 1.2 Cymeradwyaeth Reoleiddiol:** Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd)
- 1.3 Gweithredwyr:** Hanson Aggregates Marine Ltd., Cemex UK Marine Ltd., a Tarmac Marine Ltd.
- 1.4 Rhif Cais y Drwydded Forol:** MMML1670
- 1.5 Lleoliad:** Ardal 526, Aber Afon Hafren

2. Cyflwyniad

- 2.1** Mae'r ddogfen hon yn cynnwys penderfyniad cydsynio Asesu Effeithiau Amgylcheddol o dan Reoliad 22 Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd) (Rheoliadau Gwaith Morol) ar gyfer cais ar gyfer cael gwared ar agregau morol yn Ardal 526 (Estyniad Cwlfer) (Cyfeirnod y Drwydded Forol: MMML1670), a gyflwynwyd gan Hanson Aggregates Marine Ltd., Cemex UK Marine Ltd., a Tarmac Marine Ltd. fel cais ar y cyd. Cefnogwyd y cais gan Ddatganiad Amgylcheddol. Mae Gwasanaeth Trwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried y cais a'r wybodaeth a ddarperir i gefnogi'r cais ac mae bellach mewn sefyllfa i wneud penderfyniad cydsynio Asesu Effeithiau Amgylcheddol i Hanson Aggregates Marine Ltd., Cemex UK Marine Ltd., a Tarmac Marine Ltd.
- 2.2** Yn unol â Rheoliad 22 y Rheoliadau Gwaith Morol, mae Gwasanaeth Trwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru, fel y corff perthnasol, wedi ystyried y cais, y Datganiad Amgylcheddol, cynrychiolaeth cyrff ymgynghorol ac aelodau o'r cyhoedd, ac mae wedi rhoi sylw i'r ddeddfwriaeth berthnasol. Yn dilyn gorffen yr Asesiad Sgrinio Trawsffiniol, penderfynwyd nad oedd angen ymgynghori â gwladwriaethau eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd.
- 2.3** Wrth wneud y Penderfyniad Cydsynio Asesu Effeithiau Amgylcheddol, mae Gwasanaeth Cydsynio Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried yr holl wybodaeth amgylcheddol berthnasol, yn arbennig y cais am drwydded forol (MMML1670), y Datganiad Amgylcheddol, a'r cyflwyniadau a wnaed gan gyrff ymgynghorol, yr ymgeisydd ac aelodau o'r cyhoedd.

3. Disgrifiad o'r prosiect a threfniadau rheoleiddio

- 3.1** Mae Hanson Aggregates Marine Ltd., Cemex UK Marine Ltd., a Tarmac Marine Ltd. yn gwneud cais am Drwyddedau Morol er mwyn parhau i garthu agregau morol o Ardal 526 – Estyniad Cwlfer Aber Afon Hafren.
- 3.2** Mae'r prosiect yn gorgyffwrdd â dwy brif drefn gydsynio.
- 3.3** Trwydded Forol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, a weinyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru gan weithredu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu, Gweinidogion Cymru, ar gyfer yr holl weithgareddau a wneir yn nyfroedd Cymru.
- 3.4** Trwydded Forol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, a weinyddir gan y Sefydliad Rheoli Morol (MMO) ar gyfer yr holl weithgareddau a wneir yn nyfroedd Lloegr.
- 3.5** Mae'r prosiect yn cynnwys:
- Carthu gyda chwch sugno mwd drwy gydol y flwyddyn
 - Echdynnu cyfanswm o 30 miliwn tunnell dros 15 mlynedd; cyfanswm o 2 filiwn tunnell y flwyddyn ar draws yr ardal gyfan
 - Dyfnder treiddiad 1.5 i 3 metr; cyfanswm dyfnder newidiol i adael haen gyda chap 0.5 metr dros yr ardal a gaiff ei charthu
 - Golchi ar y cwch – 20 i 50m³ o ddeunydd i bob golchiad
 - Samplu cipolwg a chraidd yn ôl y gofyn at ddibenion monitro
- 3.6** Mae'r Datganiad Amgylcheddol a gyflwynwyd gyda'r cais am drwydded forol yn cwmpasu'r prosiect yn llawn yn rhanbarthau Cymru a Lloegr. Mae Gwasanaeth Trwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru, yn gweithredu fel yr awdurdod priodol ar gyfer Trwydded Forol Cymru, wedi ystyried yr Aseiad Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer holl safle'r estyniad Cwlfer (Ardal 526), gan gynnwys y tunelledd y gwnaed cais amdano ar gyfer y ddau safle.

4. Y Datganiad Amgylcheddol – Rheoliadau Gwaith Morol 12 (1) (d)

- 4.1** Amlinellodd y Datganiad Amgylcheddol effeithiau posibl y prosiect arfaethedig wedi'u trefnu o dan y penawdau canlynol:
- 4.2** Penodau technegol:
- Prosesau Ffisegol
 - Ansawdd Dŵr a Gwaddod
 - Cadwraeth Natur
 - Cynefinoedd a Rhywogaethau Benthig
 - Pysgod a Physgod Cregyn

- Adareg Forol ac Arfordirol
- Mamaliaid Morol a Chrwbanod y Môr
- Pysgodfeydd Masnachol a Hamdden
- Mordwyaeth Fasnachol a Hamdden
- Archaeoleg Forol
- Amddiffyn yr arfordir ac Amddiffyn Rhag Llifogydd
- Ansawdd Aer
- Iechyd Dynol
- Isadeiledd a Defnyddwyr Morol Eraill sy'n Bodoli
- Effeithiau Cronnus a Chyfunol
- Lliniaru a Monitro
- Casgliadau

4.3. Ystyrir bod y Datganiad Amgylcheddol yn diwallu gofynion Rheoliad 12 (1) (d) ac Atodlen 3 y Rheoliadau Gwaith Morol. Ceir sylwadau penodol sy'n berthnasol i bob pennod yn y Datganiad Amgylcheddol yn Adran 12.

5. Unrhyw wybodaeth bellach a ddarperir gan yr ymgeisydd yn dilyn hysbysiad o dan Reoliad 14 (1)

- 5.1** Gofynnwyd am wybodaeth bellach gan yr ymgeisydd yn dilyn hysbysiad o dan Reoliad 14 (1) ar 25 Ebrill 2017.
- 5.2** Cyflwynwyd atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol gan yr ymgeisydd ar 22 Mehefin 2017. Roedd hyn yn cynnwys senarios modelu ychwanegol a gwybodaeth bellach ar bysgod a physgodfeydd.

6. Canlyniad y broses a amlinellir yn Atodlen 5 yn ymwneud ag unrhyw sylwadau a dderbyniwyd yn dilyn y datganiad y cyfeirir ato yn Rheoliad 16 (2) (g)

- 6.1** Gosodwyd Hysbysiadau Cyhoeddus i hysbysu grwpiau oedd â diddordeb yn y gwaith arfaethedig ac i roi cyfle i unrhyw grwpiau neu aelodau o'r cyhoedd oedd â diddordeb i wneud sylwadau ar y cais yn ôl y galw.
- 6.2** Sicrhawyd bod y dogfennau cais canlynol ar gael, fel a ganlyn:
- Cyhoeddwyd hysbysiad cyhoeddus dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn y Barry and District News ar 9 Mawrth 2017 a 16 Mawrth 2017
 - Cyhoeddwyd hysbysiad cyhoeddus Saesneg yn y Bristol Post ar 10 Mawrth 2017 a 17 Mawrth 2017
 - Cyhoeddwyd hysbysiad cyhoeddus Saesneg yn Fishing News ar 16 Mawrth 2017
 - Gwnaed y dogfennau cais ar gael i'r cyhoedd yn y manau canlynol: Llyfrgell y Barri a Llyfrgell Ganolog Bryste am 49 diwrnod yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad cyhoeddus cyntaf.

6.3 Gwnaethpwyd gwybodaeth bellach ar gael yn dilyn hysbysiad o dan Reoliad 14 (1) fel a ganlyn:

- Cyhoeddwyd hysbysiad cyhoeddus dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn y Barry and District News ar 27 Gorffennaf 2017 a 3 Awst 2017
- Cyhoeddwyd hysbysiad cyhoeddus Saesneg yn y Bristol Post ar 20 Gorffennaf 2017 a 27 Gorffennaf 2017
- Cyhoeddwyd hysbysiad cyhoeddus Saesneg yn Fishing News ar 27 Gorffennaf 2017
- Gwnaed y dogfennau cais ar gael i'r cyhoedd yn y manau canlynol: Llyfrgell y Barri a Llyfrgell Ganolog Bryste am 49 diwrnod yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad cyhoeddus cyntaf.

6.4 Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan y cyhoedd.

7. Sylwadau a wnaed mewn ymateb i'r ymgynghoriad a wnaed gan gyrff ymgynghorol – Rheoliadau Gwaith Morol 17 (1) (a) (iv) – ac ystyriaethau o ymatebion y cyhoedd ble y bo'n berthnasol

7.1 Ymgynghorwyd ar y cais am drwydded forol ar 31 Ionawr 2017 am gyfnod o 42 diwrnod. Fe'i hanfonwyd at y cyrff ymgynghorol canlynol:

7.2 Arbenigwyr Technegol Cyfoeth Naturiol Cymru; Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS); y Weinyddiaeth Amddiffyn; Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau; Ystad y Goron; awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer Caerdydd, Bro Morgannwg, Casnewydd, Sir Fynwy, Bryste, a Gogledd Gwlad yr Haf; awdurdodau harbwr lleol; Associated British Ports (y Barri, Penarth a Chasnewydd); Ymddiriedolwyr Harbwr Caerloyw; Porthladd Bryste; swyddogion bioamrywiaeth lleol ar gyfer Caerdydd, Bro Morgannwg, Casnewydd, Sir Fynwy, Bryste, a Gogledd Gwlad yr Haf; y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol (RYA); y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB); Trinity House; Cangen Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru; swyddogion gorfodi morol Natural England; Asiantaeth yr Amgylchedd; Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru; yr Adran Drafnidiaeth; yr Ymddiriedolaethau Natur; Swyddfa Hydrograffeg y Deyrnas Unedig; Historic England; UK Chamber of Shipping; yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol; British Sub-Aqua Club (BSAC); Shellfish Association of Great Britain (SAGB); the National Federation of Fishermen's Organisations (NFFO); New Under Ten Fishermen's Association (NUTFA); NERL Safeguarding; Devon and Severn IFCA; Is-adran Cynllunio Llywodraeth Cymru.

7.3 Gwnaeth y sefydliadau canlynol gyflwyno sylwadau: Arbenigwyr Technegol Cyfoeth Naturiol Cymru; Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS); y Weinyddiaeth Amddiffyn; Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau; awdurdodau cynllunio lleol ar gyfer Caerdydd, Bro Morgannwg, a Gogledd Gwlad yr

Haf; y Gymdeithas Hwyllo Frenhinol (RYA); Trinity House; Natural England; Asiantaeth yr Amgylchedd; Historic England; Porlock Bay Oysters (y cyfeiriwyd gan y Shellfish Association of Great Britain); NERL Safeguarding; Devon and Severn IFCA.

8. Safleoedd a ddiogelir dan gyfraith Ewrop

8.1 Mae'r cynnig wedi'i leoli'n rhannol o fewn safle a ddiogelir dan gyfraith Ewrop.

8.2 Mae effeithiau'r cynnig ar y safleoedd Ewropeaidd canlynol, eu nodweddion a'u hamcanion cadwraeth wedi'u hystyried gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y broses o benderfynu ar y drwydded:

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Aber Afon Hafren
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig Aber Afon Hafren
- Safle Ramsar Aber Afon Hafren

8.3 Cynhaliwyd prawf yr effaith arwyddocaol debygol a gellid diystyru effeithiau arwyddocaol posibl ar y safleoedd Ewropeaidd a restrir uchod. Casglwyd na fyddai'r cynnig, pan gaiff ei ystyried ar ei ben ei hun ac yn gyfunol, yn effeithio'n negyddol ar gyfanrwydd y safle(oedd) Ewropeaidd dan sylw.

9. Materion sy'n codi i'w hystyried gyda'r Datganiad Amgylcheddol, y cais am Drwydded Forol a chyflwyniadau a dderbyniwyd

9.1 Wrth wneud y penderfyniad cydsynio Asesu Effeithiau Amgylcheddol Rheoliad 22, rydym wedi ystyried y materion a nodwyd yn dilyn ystyried y Datganiad Amgylcheddol, cyflwyniadau gan gyrff ymgynghorol ac aelodau o'r cyhoedd, ac unrhyw wybodaeth ychwanegol o ganlyniad a ddarparwyd mewn ymateb gan yr ymgeisydd. Ceir rhagor o wybodaeth am yr ystyriaeth hon yn y penderfyniad cydsynio Asesu Effeithiau Amgylcheddol llawn (Saesneg yn unig).

10. Arfarniad rheoleiddiol a phenderfyniad cydsynio Asesu Effeithiau Amgylcheddol

10.1 Wrth ystyried y cais ar gyfer carthu agregau o Ardal 526 (Estyniad Cwlfer), ystyriwyd y canlynol:

- y cais;
- y Datganiad Amgylcheddol;
- unrhyw wybodaeth bellach a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn dilyn hysbysiad o dan Reoliad 14 (1);

- canlyniad y broses a amlinellir yn Atodlen 5 mewn perthynas ag unrhyw gyflwyniadau a dderbyniwyd yn dilyn y datganiad y cyfeirir ato yn Rheoliad 16 (2) (g);
- unrhyw sylwadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad a wnaed gan gyrff ymgynghorol yn dilyn y llythyr y cyfeirir ato yn Rheoliad 17 (1) (a) (iv); a
- chanlyniad unrhyw ymgynghoriadau ag awdurdodau mewn gwladwriaethau eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a wnaed yn unol â Rheoliad 20;
- y ddeddfwriaeth berthnasol; ac
- ystyriwyd effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y prosiect ar—
 - bobl, ffawna a fflora;
 - pridd, dŵr, aer, hinsawdd a thirwedd;
 - asedau materol a threftadaeth ddiwylliannol; a'r
 - rhyngweithio rhwng dau neu fwy o'r pethau a nodir yn yr is-baragraffau blaenorol.

14.2 O ganlyniad, rydym yn casglu bod effeithiau amgylcheddol carthu'r agregau morol wedi'u nodi, eu disgrifio a'u hasesu yn ddigonol ac y gellir sicrhau lliniaru.

14.3 Felly rydym yn rhoi cydsyniad Asesu Effeithiau Amgylcheddol i Hanson Aggregates Marine Ltd., Cemex UK Marine Ltd., a Tarmac Marine Ltd.

15. Cymeradwywyd

Cynhyrchwyd gan: Jasmine Sharp (Uwch-swyddog Trwyddedu'r Tîm Trwyddedu Morol)



Arwyddwyd:

Dyddiad: 20 Medi 2017

Cymeradwywyd gan: Eleanor Ellick, (Uwch-arweinydd Trwyddedu'r Tîm Trwyddedu Morol)



Arwyddwyd:

Dyddiad: 31 Hydref 2017